

Y Cwricwlwm i Gymru: Beth y mae angen i ysgolion ei wneud erbyn mis Medi?

Bydd cynllunio'r cwricwlwm yn broses barhaus o wella cyson, ac nid ydym yn disgwyl y bydd ysgolion wedi perffeithio na chwblhau pob agwedd erbyn y cam cyflwyno. Fodd bynnag, bydd rhai gofynion cyfreithiol y bydd angen i ysgolion eu cyflawni pan fyddant yn cyflwyno eu cwricwlwm. Dyma grynodedb o'r hyn sy'n ofynnol.

Yn gyntaf, gadewch i ni egluro ystyr y termau 'mandodol' a 'canllawiau statudol' yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar Hwb.

Mandodol

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) yn gosod dyletswyddau mandodol ar ysgolion – pethau y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt eu gwneud. Pan fydd y canllawiau yn sôn am bethau y mae'n 'rhaid' i ysgolion eu gwneud, maent yn cyfeirio at ofynion cyfreithiol mandodol.

Canllawiau Statudol

Mae gweddill canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, fel yr adrannau 'disgrifiadau dysgu' a 'cynllunio eich cwricwlwm', yn 'ganllawiau statudol'.

Rhaid i ysgolion roi 'sylw dyledus' i'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau, sy'n golygu bod rhaid iddynt ddarllen y canllawiau yn ofalus, ac y dylent eu dilyn. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yn ofalus, os oes ganddynt reswm da a chlr dros wneud rhywbeth yn wahanol, gallant wneud hynny.

Pan fydd y canllawiau yn sôn am bethau y 'dylai' ysgolion eu gwneud, 'rhoi sylw iddynt' neu eu hystyried, maent yn cyfeirio at **ganllawiau statudol**.



Felly beth mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ysgolion ei wneud – erbyn mis Medi?

- 1 Cynllunio cwricwlwm*
- 2 Mabwysiadu eu cwricwlwm a chyhoeddi crynodeb ohono**
- 3 O fis Medi ymlaen, gweithredu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu a pharhau i'w hadolygu*
- 4 Dilyn dyletswyddau ychwanegol o amgylch y cwricwlwm

* Dyletswydd y Pennaeth ** Dyletswydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu

Beth mae hynny yn ei olygu mewn manylder?



1 Yn gyntaf, rhaid i ysgolion gynllunio cwricwlwm.

Rhaid i'r cwricwlwm wneud y canlynol:

- galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- darparu ar gyfer cynnydd priodol a chyd-fynd ag egwyddorion cynnydd a nodir yn y 'Cod Cynnydd' – sy'n berthnasol i'r holl ddysgu ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.
- bod yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau – a yw ein cwricwlwm yn briodol ar gyfer pob un o'n dysgwyr?
- bod yn eang ac yn gytbwys – a yw ein cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd dysgu eang?
- cwmpasu'r cysyniadau a nodir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yng 'Nghod yr Hyn sy'n Bwysig' – rhaid cynnwys manylion y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yng nghwricwlwm ysgolion

- darparu ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad – (nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod rhaid i ysgolion drefnu eu hamserlen o amgylch meysydd dysgu a phrofiad
- cynnwys –
 - Cymraeg
 - Saesneg o 7 mlwydd oed
 - Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (gan gynnwys manylion y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)
 - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg – rhaid i ysgolion hefyd ystyried y maes llafur cytunedig a fabwysiadwyd gan eu hawdurdod lleol – mae rhagor o fanylion am Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael ar Hwb
 - Sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

Fel yr eglurwyd uchod, wrth gynllunio eu cwricwlwm, rhaid i ysgolion ystyried canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru – y canllawiau statudol – yn ofalus.

2 Yn ail, rhaid i ysgolion fabwysiadu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu, a chyhoeddi crynodeb o'u cwricwlwm.

Er mwyn mabwysiadu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, mae angen i'r pennaeth a'r corff llywodraethu gytuno i'w fabwysiadu. Ac o ran y crynodeb y mae'n rhaid i ysgolion ei gyhoeddi – dim ond crynodeb syml yw hynny. Rydym yn awgrymu y dylid cynnwys gwybodaeth fel:

- gwybodaeth am y ffordd y mae ymarferwyr, dysgwyr, rhieni, gofalywyr a'r gymuned ehangach wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r cwricwlwm
- sut mae'r cwricwlwm yn bodloni elfennau gofynnol y Cwricwlwm i Gymru, gan ddechrau gyda'r pedwar diben
- gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn ymdrin â chynnydd dysgwyr a'i threfniadau ar gyfer asesu
- sut y bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys y broses ar gyfer casglu adborth a diwygio'r cwricwlwm yn barhaus

Gall Gwasanaethau Gwella Ysgolion ddarparu deunydd ategol ar hyn.

3

Rhaid i ysgolion roi'r cwricwlwm y maent wedi'i gynllunio a'i fabwysiadu ar waith. Mae gan ysgolion hefyd ddyletswyddau o ran sut y caiff y cwricwlwm hwn ei roi ar waith.

Rhaid i ysgolion sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n:

- galluogi pob dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig cyfleoedd priodol i bob dysgwr wneud cynnydd
- addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob dysgwr
- ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob dysgwr (os oes rhai o gwbl)
- sicrhau dulliau dysgu ac addysgu eang a chytbwys i bob dysgwr
- cwmpasu, ar gyfer pob dysgwr, y Meysydd, elfennau mandodol y cwricwlwm sef Cymraeg a'r Saesneg, y sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (y mae'n rhaid iddi fod yn addas ar gyfer cam datblygu'r dysgwr), a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Ochr yn ochr â hyn, rhaid i ysgolion hefyd fod â threfniadau asesu yn eu lle. Dylai'r rhain fod yn rhan naturiol o arferion bob dydd yn y dosbarth ac yn briodol i bob dysgwr.

Yn y tymor hwy, rhaid i ysgolion a'u cyrff llywodraethu barhau i adolygu eu cwricwlwm a'i ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r gofynion cyfreithiol.

Mae gofynion deddfwriaethol eraill ynghylch dewis i ddysgwyr a datgymhwyso, y gallwch gael rhagor o wybodaeth amdanynt ar dudalen y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb.

Mae gofynion ynghylch asesu i'w gweld yn y Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022 ac maent yn cynnwys:

- gwneud trefniadau ar gyfer asesiad parhaus o bob disgybl a phlentyn drwy gydol y flwyddyn ysgol gan ymarferydd, a chynnal yr asesiad hwnnw
- gwneud trefniadau ar gyfer asesiadau wrth dderbyn disgyblion a chynnal yr asesiadau hynny ar gyfer pob disgybl a phlentyn ar adegau penodol a nodir yn y Rheoliadau hynny.

Yn amodol ar gadarnhad o'r manylion, bydd hefyd yn ofynnol i ysgolion:

- weithio o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a chynllunio ar gyfer pontio dysgwyr rhwng ysgolion
- darparu gwybodaeth i rieni a gofalmwyr fel eu bod yn deall y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.

4

Yn olaf, mae tri gofyniad arall i fod yn ymwybodol ohonynt.



Yn gyntaf, pan fydd ysgolion yn gwneud penderfyniadau am eu cwricwlwm, rhaid iddynt ystyried yr effaith ar iechyd meddwl a lles emosïynol dysgwyr.

Yn ail, rhaid i ysgolion hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i'r rhai sy'n darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu, er mwyn iddynt ddeall y confensiynau hyn.

Yn drydydd, rhaid i ysgolion gydweithio ag ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, os yw hynny'n eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddf.

Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion ar dudalen y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb. Gallwch hefyd gael rhagor o gymorth drwy eich gwasanaeth gwella ysgolion.